

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr N Ramsay
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Tachwedd 2018

Aunwyl Mr Ramsay,

Diolch ichi am eich llythyr 25 Hydref yn gofyn imi daflu goleuni ar gwestiynau sy'n deillio o'm presenoldeb yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Hydref. Rwyf wedi cynnwys ymatebion o dan y penawdau cyfatebol isod:

Gweithgor ar hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y Llywodraeth

Roedd y papur a baratowyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o uwch weision sifil a sefydlwyd gan y cyn Ysgrifennydd Parhaol, Syr Derek Jones, yn bapur mewnol i hwyluso trafodaeth ar nodau hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r iaith yn y sefydliad. Cafodd y papur ei gyflwyno imi yn ystod y dyddiau cyntaf y bŵm yn y swydd, gyda'r nod o gychwyn trafodaeth ar lefel y Bwrdd i'm cynghori ar y dull gweithredu a argymhellwyd ar gyfer datblygu polisi mewnol. Roedd Safonau'r Gymraeg wedi bod yn eu lle ers ychydig fisoedd ar y pryd, ac roedd newidiadau strategol i bolisi iaith ar y gweill, gan gynnwys cyhoeddi Cymraeg 2050. O dan yr amgylchiadau hynny, felly, roeddwn yn credu ei bod yn ddoeth cymryd amser i ddeall mwy am y mater ac i gnoi cil arno.

Ers hynny, mae'r Safonau wedi ennill eu plwyf yn swyddogaethau'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae uchelgais y strategaeth o sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050 wedi cael ei groesawu gan sefydliadau ledled Cymru. Yn ogystal, bydd camau newydd a roddwyd yn eu lle i gynyddu'r defnydd o'r iaith mewn sefydliadau blaengar eraill bellach yn ein helpu i lywio ein safiad ar y mater. Mae'r gwersi a ddysgwyd o Gomisiwn



**BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

y Cynulliad, Heddlu De Cymru, Cyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Ynys Môn a Chyngor Caerdydd o ddiddordeb mawr imi ac yn rhan o'r gwaith pellach yr wyf wedi'i gomisiynu. Mae fy nghydweithiwr sy'n gyfrifol am oruchwylio'r safonau wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd â phersonél allweddol yn y sefydliadau hyn i drafod eu profiadau o ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu.

Rwyf yn ymwybodol o'r angen i ystyried yn ofalus holl oblygiadau posibl datblygiadau a sefydlir gan y sefydliadau hyn, ac i ddeall yn llawn arwyddocâd symud i unrhyw sefyllfa lle y mae sgiliau Cymraeg yn ofyniad ar draws y gweithlu. Byddaf yn pwysu a mesur canlyniadau hyn ac rwyf yn ymwybodol o'r angen i gadw ewyllys da'r gweithlu ochr yn ochr â'm huchelgais o weld gallu Llywodraeth Cymru i weithio'n ddwyieithog yn cynyddu ac i weld mwy o swyddogion yn defnyddio'r iaith.

Fel yn achos pob mater staffio, penderfyniad a gaiff ei wneud gennyf fi yn rhinwedd fy swydd fel Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yw hwn, gydag ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyngor fy uwch dîm a Bwrdd Llywodraeth Cymru. Er hynny, rwyf yn ymwybodol iawn o gyd-destun deddfwriaethol a gwleidyddol y mater hwn, a'r ymrwymiad clir a nodwyd yn Cymraeg 2050 gan y Prif Weinidog i weld cynnydd yn y defnydd o'r iaith gan weithlu Llywodraeth Cymru. Byddaf yn cydweithio'n agos â'r Gweinidogion i sicrhau bod ein camau nesaf o safbwynt polisi ac uchelgais yn cyd-fynd yn agos â'u blaenoriaethau.

Proffilio Llwyddiant a chymwyseddau

Nid ydym o dan unrhyw ofyniad statudol i ddilyn y dull gweithredu ar gyfer Proffiliau Llwyddiant gan fod y cyfrifoldeb dros faterion staffio'r gwasanaeth sifil yn Llywodraeth Cymru (ac eithrio'r Uwch Wasanaeth Sifil) wedi'i ddirprwyo. Er hynny, mae Bwrdd Gallu a Thalent Llywodraeth Cymru wedi penderfynu, o ran egwyddor ac yn ddarostyngedig i ymgysylltu ac ymgynghori â'r Undebau Llafur, fabwysiadu Proffiliau Llwyddiant. Mae Swyddfa'r Cabinet yn Llywodraeth y DU yn gyfrifol am gyflwyno'r dull gweithredu yn raddol ar draws y Gwasanaeth Sifil ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â Swyddfa'r Cabinet ynghylch rhoi hyn ar waith yn y flwyddyn galendr nesaf. Bydd angen amserlen rhywfaint yn hwy ar gyfer y gwaith gweithredu gan fod angen datblygu'r holl ddeunyddiau'n ddwyieithog ac i sicrhau cyfnod effeithiol o ymgysylltu ac ymgynghori ag undebau llafur a rhwydweithiau staff yn Llywodraeth Cymru.

Cynllun diwygio a thargedau effeithlonrwydd Gwasanaeth Sifil Cymru

Mae gwaith y fenter Diogelu'r Dyfodol a gwella gwaith effeithlonrwydd yn cydweddu â'i gilydd ond yn sefyll ar wahân hefyd gan fod yr olaf yn sefydlu prosesau a gweithdrefnau



BUDDSODDWR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

mwy effeithlon ac effeithiol tra bo'r cyntaf yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau iawn yn y sefydliad. Byddai hyn yn cynnwys y sgiliau y mae eu hangen i wireddu'r manteision sy'n deillio o'r prosesau a'r gweithdrefnau newydd.

Sefydlwyd y bwrdd gwella gwaith effeithlonrwydd i wella effeithlonrwydd prosesau a gweithdrefnau yn Llywodraeth Cymru trwy nodi gwaith gweinyddol a/neu drafodiadol a allai gael ei symleiddio neu ei wneud yn llai aml, mewn ffordd wahanol neu ddim o gwbl. Y meysydd gwaith o dan sylw yw; gweinyddu grantiau, diwydrwydd dyladwy yn achos grantiau, rhoi un uned cyrff cyhoeddus ar waith ar gyfer Llywodraeth Cymru a rhesymoli cyngor ar ymgysylltu â rhanddeiliaid. Caiff canlyniad yr adolygiad annibynnol o wasanaethau corfforaethol ei ystyried hefyd gan y bwrdd.

Un o negeseuon allweddol yr ymarfer gwersi a ddysgwyd yn y rhaglen Parod at y Dyfodol oedd ein bod wedi ceisio newid gormod o bethau ar yr un pryd a bod risg y byddai'r rhaglen yn fwy tameidiog a gwannach o'r herwydd. Roedd y rhaglen yn tyfu i'r fath raddau fel ei bod yn anodd ei thrin. Roeddem yn teimlo y byddai'n fwy effeithiol canolbwyntio ar lai o bethau ond sicrhau ein bod yn gallu eu cyflawni. Dyna paham y mae gan y bwrdd gwella effeithlonrwydd, a sefydlwyd ar ddiwedd amser fy rhagflaenydd yn y swydd, agenda bendant iawn.

Hanfod y fenter Diogelu'r Dyfodol yw datblygu gwasanaeth sifil medrus a chynaliadwy a all ein helpu i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu heddiw ond hefyd i ymdopi â'r byd sy'n prysur newid o'n cwmpas a'r heriau a fydd yn ein hwynebu yn y dyfodol. Er mwyn ymateb i'r heriau hynny bydd angen inni fod yn glir ynghylch yr hyn y mae arnom ei angen gan bawb yn y sefydliad a galluogi pobl i berfformio ar eu gorau yn amlach. Mae hefyd yn cynnwys pwyslais llawer cryfach ar ddysgu a datblygu parhaus sy'n cefnogi pobl i fod yn uchelgeisiol ynghylch gwelliant ac effeithlonrwydd – gan gynnwys yn ein gwaith ar grantiau, sicrwydd, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfranogiad y dinesydd. Rydym yn buddsoddi yn ein rhaglenni dysgu a datblygu er mwyn sicrhau y gallwn lenwi'r blychau yn ein gallu allweddol, a rhoi i bobl sy'n gweithio yma'r cyfleoedd y mae eu hangen arnynt i ddatblygu eu cryfderau a datblygu sgiliau newydd.

Eglurhad pellach o gyfarfod 15 Hydref

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 15 Hydref, cytunais i roi eglurhad ynghylch anghysondeb canfyddedig yn y dull gweithredu o ran darparu gwarantau Llywodraeth Cymru, a godwyd gan Neil Hamilton yn ystod ein trafodaethau.

Ar 4 Hydref 2018, wrth ymateb i WAQ77218 oddi wrth Adam Price AC, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth nad yw'r Swyddfa Ystadegau



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.llyw.cymru


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Gwladol (ONS) wedi cael gwybod am drefniant y warant sy'n bodoli gydag Aston Martin Lagonda (AML) gan nad yw hyn yn angenrheidiol ond os gelwir ar y warant. Gallaf ymhelaethu ychydig ar hyn a chadarnhau fel a ganlyn: os byddai galw ar y warant rywbyrd yn y dyfodol, byddai swyddogion yn gwneud asesiad, yn unol ag arferion gorau, o'r effaith ar fuddsoddiad cyhoeddus yn AML ynghyd ag ystyriaethau perchnogaeth gyhoeddus. Gallai hyn olygu'r posibilrwydd o hysbysu ONS a'r goblygiadau cyfrifyddu a chyllidebu ar gyfer Llywodraeth Cymru bryd hynny.

Mae'r cwestiwn penodol a godwyd gan Mr Hamilton yn ystod sesiwn ddiweddar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymwneud ag anghysondeb i bob golwg yn y dull gweithredu o ran darparu gwarant i AML ond ddim i Gylchffordd Cymru. I fod yn glir, nid oes anghysondeb yn y dull gweithredu gan na ellir cymharu'r amgylchiadau sy'n sail i'r ddau brosiect. Yn achos AML, cafodd gwarant Llywodraeth Cymru ei darparu ar gyfer agwedd benodol ar y pecyn ariannu cyffredinol i'r cwmni a'r prosiect ac fel y cyfryw elfen fach iawn yn unig o weithrediadau rhiant-gwmni AML ydyw. Ystyriwyd bod Cylchffordd Cymru, ar y llaw arall, yn gyfrwng at ddibenion arbennig a'r farn oedd bod lefel cyllid y sector cyhoeddus, gan gymryd y warant arfaethedig i ystyriaeth, yn gwneud Llywodraeth Cymru'n agored i risgiau llawn y prosiect.

Cododd Adam Price gwestiwn ar wahân ynghylch trefniadau'r warant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n cael eu cyfleu fel rhwymedigaethau digwyddiadol yn ein cyfrifon. Rwyf wedi gofyn i gyfreithwyr fy nghyngori ynghylch a wyf yn cael rhannu unrhyw wybodaeth bellach â'r Pwyllgor yn hyn o beth. Maent yn ymgynghori â phartneriaid ar ôl cael cadarnhad gan glerc cod ynghylch geiriad penodol y cam gweithredu a gofnodwyd. Pan fyddaf wedi cael y cyngor cyfreithiol angenrheidiol, fel y cytunwyd arno yn y Pwyllgor, byddaf yn ymateb ar wahân ar y mater hwn.

Yn gywir,


Shan Morgan

Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>